# Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Moderneiddio Addysg**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **Ysgol Treferthyr**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru

**3 Mehefin 2021**

**At**: Ymgynghoreuon yn gysylltiedig â'r cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497

Annwyl Randdeiliad,

***Par:* Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023.**

Ar ddydd Mawrth 18 Mai 2021, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018. Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar 2 Mehefin 2021.

Cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol rhwng 24 Chwefror a 24 Mawrth 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig ac o ganlyniad, cefnogodd y Cabinet yr argymhelliad i gadarnhau'r cynnig yn derfynol.

Datblygwyd y cynnig o ganlyniad i'r prif heriau oedd yn wynebu'r ysgol, sef:

- **Cyflwr**
  Mae Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor o'r farn fod Ysgol Treferthyr mewn cyflwr gwael iawn a bellach tu hwnt i'r sefyllfa ble ellir ei gynnal a chadw. Mae'r arolygon cyflwr yn rhoi'r ysgol yng nghategori cyflwr C- oherwydd eu bod wedi adnabod sawl mater sy'n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i'r adeiladwaith.

- **Addasrwydd**
  Yn ogystal a chyflwr hynod ddrwg yr ysgol mae arolwg addasrwydd diweddar wedi nodi fod yr ysgol bresennol yn wael iawn a bod yr adeiladau yn amharu'n sylweddol ar allu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm.

- **Capasiti**
  Wrth gydnabod gwersi o brosiectau blaenorol mae'r Cyngor o'r farn fod rhaid i gynlluniau adeiladu ysgolion newydd fod ar sail yr holl blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol bresennol yn hytrach na'r niferoedd sy'n mynychu'r ysgol ar y pryd. Ar sail ffigyrau Medi 2020, roedd potensial i niferoedd Ysgol Treferthyr fod yn 146 h.y 117 yn yr ysgol a 29 o'r dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Oherwydd hyn penderfyniwyd i adeiladu yr ysgol newydd gyda

chapasiti ar gyfer 150 i gynnwys 5 dosbarth ar gyfer plant oed derbyn i blwyddyn 6 a dosbarth meithrin.

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu i'r ffactorau canlynol gael eu hystyried gan y Cabinet yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018):

· Ansawdd a safonau mewn addysg

· Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

· Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

· Ffactorau cyffredinol eraill

· Effaith posib ar wahanol drefniadau teithio

· Effaith posib ar y Gymuned

· Effaith posib ar ansawdd a safonau addysg

· Cydraddoldeb

· Yr Iaith Gymraeg


· Gofynion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Mai 2021 yn ymhelaethu ar y cefndir, yr ymgynghori a'r broses statudol, gan gynnwys yr ystyriaethau perthnasol. Mae'r adroddiad yma ynghyd ac adroddiadau Cabinet a dogfennau eraill perthnasol i'w gweld ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Yn unol â'r penderfyniad uchod, bydd **Ysgol Treferthyr yn adleoli i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 ar 1 Medi 2023 a'r capasiti yn cynyddu i 150.**

Os ydych angen gwybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu gyda ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Yn gywir,



**Garem Jackson**
**Pennaeth Addysg**